# Cwestiwn enghreifftiol SQE2 a thrafodaeth ar yr ateb

Ysgrifennu Cyfreithiol (Sefydliadau, rheolau a gweithdrefnau Busnes)

*Adolygwyd Tachwedd 2025*

Bydd ymgeiswyr yn sefyll 16 o asesiadau yn SQE2. Er mwyn pasio SQE2, rhaid i ymgeiswyr gael y marc pasio cyffredinol ar gyfer SQE2.

Mae'r cwestiwn enghreifftiol hwn, a thrafodaeth ar yr ateb, yn enghraifft o asesiad ysgrifennu cyfreithiol. Asesiad ar gyfrifiadur yw hwn a bydd gan ymgeiswyr 30 munud i gyflawni'r dasg.

Am ragor o fanylion gweler Manyleb Asesu SQE2.

**Sylwer bod y cwestiynau enghreifftiol wedi cael eu cyhoeddi er mwyn rhoi syniad o'r math o dasgau y gellid eu gosod i ymgeiswyr. Nid ydynt yn adlewyrchu'r holl ddeunydd sydd wedi'i gynnwys yn SQE2.**

**Efallai na fydd cwestiynau yn y dyfodol yn dilyn yr un fformat yn union.**

# Cwestiwn a phapurau ychwanegol i ymgeiswyr

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Fe welwch fod rhai termau Cymraeg yn yr asesiad hwn yn cael eu dilyn gan y term Saesneg cyfatebol mewn cromfachau. Yn ogystal, mae rhestr eirfa, sydd wedi'i chynnwys, wedi'i ffurfio o'r termau hynny.**

**E-bost at yr Ymgeisydd**

---

**Oddi wrth:** Partner
**Anfonwyd:** 11 Chwefror 202#
**At:** Yr Ymgeisydd
**Pwnc:** Arjun Gupta – Sparkling Carpets

Cefais sgwrs ffôn ddoe gyda chleient newydd, Arjun Gupta. Cysylltodd Arjun â ni i gael cyngor ynglŷn â Sparkling Carpets (y 'Busnes'), sef busnes y mae'n ei weithredu mewn partneriaeth â'i gyfnither, Priti Singh.

Dechreuodd Arjun a Priti y Busnes tua phedair blynedd yn ôl i ddarparu gwasanaethau glanhau carpedi i gwsmeriaid lleol. Mae'r Busnes yn cael ei gynnal o safle yn Sheffield ac mae'r ddau bartner yn gweithio'n llawn amser i'r Busnes yn ystod ei oriau busnes arferol rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Maent yn bartneriaid cyfartal yn y Busnes ac yn rhannu'r holl dreuliau ac elw yn gyfartal. Nid oes ganddynt gytundeb partneriaeth ysgrifenedig. Er bod y Busnes yn llwyddo, mae dau fater wedi codi yn ddiweddar sy'n peri pryder i Arjun.

Mae'r mater cyntaf yn ymwneud ag un o gwsmeriaid y Busnes, Alessia Ricci, sef perchennog gwesty lleol sydd hefyd yn berchen ar eiddo gwyliau mawr mae hi'n ei rentu. Mae'r cwsmer hwn yn defnyddio gwasanaethau glanhau carpedi'r Busnes yn rheolaidd ar gyfer ei gwesty lleol ac yn ddiweddar soniodd mewn sgwrs ag Arjun pa mor falch oedd hi gyda gwaith Priti yn darparu gwasanaethau glanhau carpedi yn ei heiddo rhent hi, yn sicrhau bod ei charpedi mewn cyflwr perffaith i'w gwesteion.

Dywedodd Alessia Ricci wrth Arjun fod Priti wedi bod yn mynychu ei safle gwyliau rhent o bryd i'w gilydd y tu allan i oriau busnes arferol y Busnes i lanhau'r carpedi rhwng ei gwaith glanhau arall. Nid oedd Arjun yn ymwybodol o hyn a gofynnodd i Priti amdano. Esboniodd hi fod ganddi berthynas dda ag Alessia Ricci ac mae wedi bod yn gwneud rhywfaint o arian ychwanegol iddi hi ei hun trwy ddarparu'r gwasanaethau glanhau ychwanegol hyn yn ei hamser rhydd gan ddefnyddio offer y bartneriaeth. Hoffai Arjun wybod a oes gan Priti yr hawl i gadw'r arian y mae hi wedi'i wneud o'r gwaith ychwanegol hwn.

Yr ail fater yw bod Priti wedi bod yn ceisio perswadio Arjun yn ddiweddar i brynu peiriant robot drud i lanhau carpedi (y 'Peiriant Glanhau') er mwyn gwella offer

glanhau presennol y Busnes. Mae Arjun wedi dweud wrth Priti na all y Busnes fforddio'r Peiriant Glanhau. Cymerodd y partneriaid fenthyciad banc pum mlynedd o hyd pan sefydlwyd y Busnes gyntaf, y mae'r Busnes yn gwneud ad-daliadau rheolaidd tuag ato, ac mae Arjun yn dymuno ad-dalu'r benthyciad hwn yn llawn cyn gwneud unrhyw fuddsoddiad pellach mewn offer. Ni fydd y benthyciad yn cael ei dalu'n ôl yn llawn tan ddiwedd y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, mae Arjun yn poeni y gallai Priti fwrw ymlaen i brynu'r Peiriant Glanhau heb ei gytundeb ef. Os felly, hoffai Arjun wybod a fyddai'r Busnes yn atebol am y pryniant.

Dywedais wrth Arjun y byddem yn anfon llythyr ato yn ei gynghori ar y ddau fater hwn. Hefyd, trafodais yn fyr ag ef y manteision o sefydlu cytundeb partneriaeth ysgrifenedig. Nododd Arjun y byddai'n hoffi trafod hyn ymhellach maes o law **ond am y tro mae'n dymuno ymdrin â'r ddau fater a amlinellir uchod yn unig**. Felly, nid oes angen i ti fynd i'r afael â manteision cytundeb partneriaeth ysgrifenedig yn dy lythyr.

Rwyf eisoes wedi delio â'r holl faterion gofal cleientiaid a gwyngalchu arian, felly nid oes angen ti ddelio â'r rhain.

**Hoffwn i ti ysgrifennu llythyr at Arjun yn fy enw i, yn egluro'r canlynol yn gryno:**

1. **A oes gan Priti yr hawl i gadw'r arian y mae hi wedi'i wneud o'r gwasanaethau glanhau carpedi ychwanegol y mae hi wedi'u darparu i Alessia Ricci; a**

2. **Phwy fyddai'n atebol am dalu am y Peiriant Glanhau os bydd Priti yn ei brynu heb gytundeb Arjun.**

Nid yw Arjun yn gyfreithiwr, felly mae'n bwysig bod dy lythyr yn syml a hawdd ei ddeall. Fodd bynnag, mae e'n dymuno deall cefndir cyfreithiol dy gyngor, felly dylet roi eglurhad cyfreithiol cryno lle bo hynny'n briodol.

Diolch

Partner

**Nodyn i Ymgeiswyr:**

**Nid oes angen i chi ddelio â materion gofal cleientiaid (gan gynnwys costau), gwyngalchu arian, gwasanaethau ariannol, na materion trethiant.**

**Dylech ysgrifennu eich ateb yn y templed electronig a ddarperir.  Mae'r templed yn cynnwys manylion cyswllt y derbynnydd.  Cafodd hwn ei lunio at ddiben yr asesiad hwn yn unig ac mae’n bosibl nad yw’n bodloni'r holl ofynion cyfreithiol ar gyfer deunydd ysgrifennu busnes LLP.  Ni ddylech geisio ei ddiwygio i adlewyrchu'r gofynion hynny.**

**Peidiwch â rhoi eich enw ar y templed ateb.**

## DIWEDD

**Rhestr eirfa ar gyfer Busnes>Ysgrifennu cyfreithiol**

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| awdurdod ymddangosiadol | apparent authority |
| digolledu | compensate |
| dyletswyddau ymddiriedol | fiduciary duties |
| person lleyg | a lay person |

# DIWEDD

# Trafodaeth ar yr ateb

**PWYNTIAU CYFREITHIOL ALLWEDDOL**

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

Sylwer, er bod dyfyniadau (e.e. adrannau o Ddeddf Partneriaeth 1890) wedi'u cynnwys isod i esbonio'r sefyllfa gyfreithiol, nid yw'n briodol cynnwys dyfyniadau yn eich llythyr wrth ymateb i'r cleient.

***Y dyletswyddau ymddiriedol (fiduciary duties) sydd ar bartneriaid i'w gilydd, gan gynnwys datgeliad llawn a'r rheol dim elw; y rhwymedigaeth i roi cyfrif am elw cyfrinachol***

Mae ar bartneriaid mewn partneriaeth draddodiadol ddyletswyddau ymddiredol i'w gilydd, sy'n cynnwys dyletswyddau ewyllys da a bod yn driw, y ddyletswydd i ddatgelu'r holl wybodaeth berthnasol i'r partneriaid eraill, y ddyletswydd i osgoi gwrthdaro buddiannau a'r ddyletswydd i beidio ag elwa o'r bartneriaeth heb ganiatâd. Mae rhwymedigaethau statudol tebyg hefyd yn Neddf Partneriaeth 1890, adran 28 (dyletswydd i ddatgelu gwybodaeth i bartneriaid eraill ynghylch yr holl faterion sy'n effeithio ar y bartneriaeth), adran 29 (dyletswydd i roi cyfrif am elw cyfrinachol) ac adran 30 (dyletswydd i roi cyfrif am elw o fusnes cystadleuol). Mae Priti wedi torri'r dyletswyddau hyn trwy'r gwaith ychwanegol y mae hi wedi'i wneud i Alessia Ricci heb i'r cleient wybod na rhoi caniatâd.

***A oes gan bartner yr awdurdod i rwymo'r bartneriaeth i gontract yr ymrwymodd y partner hwnnw iddo***

Mae'r gyfraith berthnasol yn cynnwys yr egwyddorion cyffredinol ar gyfer asiantiaid sy'n berthnasol i'r awdurdod sydd gan bartner i rwymo'r bartneriaeth a'r darpariaethau statudol yn adran 5 o Ddeddf Partneriaeth 1890. Gall partneriaeth fod wedi'i rhwymo gan drafodiad yr ymrwymwyd iddo gan un o'r partneriaid, hyd yn oed pan fo'r partner hwnnw'n gweithredu heb awdurdod gwirioneddol, os yw'n ymddangos i drydydd parti fod gan y partner awdurdod (h.y. mae'r trydydd parti yn credu bod gan y partner hwnnw'r awdurdod i weithredu ar ran y bartneriaeth). Os felly, bydd y bartneriaeth yn atebol i'r trydydd parti mewn perthynas â'r trafodiad hwnnw. Byddai'r partner a weithredodd heb awdurdod gwirioneddol yn yr achos hwnnw yn agored i indemnio'r partneriaid eraill am unrhyw golled a ddioddefir. Pe bai Priti yn ceisio prynu'r Peiriant Glanhau heb gytundeb y cleient, mae'n debygol felly y byddai'r bartneriaeth wedi'i rhwymo gan y trafodiad ac felly'n atebol am dalu'r cyflenwr os nad oedd y cyflenwr yn ymwybodol o ddiffyg awdurdod Priti. Fodd bynnag, byddai Priti yn agored i indemnio'r cleient am unrhyw golled a ddioddefir.

**ENGHRAIFFT O ATEB**

**Mae ateb enghreifftiol wedi'i roi isod. Enghraifft yw hyn o ateb ymgeisydd a**

**fyddai'n cael ei asesu fel un sy'n amlwg yn cyflawni gofynion cymhwysedd yr asesiad Ysgrifennu Cyfreithiol. Nid yw hwn yn ateb perffaith nac yn ateb delfrydol ac fe ellid gwneud pwyntiau pellach.**

## Spring & Hughes LLP

28 Rose Walk Gardens, Llundain W1 6FM
**Ffôn** +44 (0)20 7153 1400
**Ffacs** +44 (0)20 7153 1401
www.springhughes.com


Mr A Gupta
173 Chesterfield Road
Sheffield
S18 6DD

11 Chwefror 202#

Annwyl Arjun

**Sparkling Carpets**

Rwy'n cyfeirio at ein sgwrs ffôn ddiweddar ynglŷn â'ch pryderon am rai agweddau ar ymddygiad diweddar eich partner busnes, Priti Singh. Rwyf wedi nodi isod fy nadansoddiad mewn perthynas â phob un o'ch pryderon.

**A oes gan Priti yr hawl i gadw'r arian y mae hi wedi'i wneud o'r gwasanaethau glanhau carpedi ychwanegol y mae hi wedi'u darparu i Alessia Ricci?**

Fe ddywedoch chi wrthyf eich bod chi a Priti wedi bod yn rhedeg busnes glanhau carpedi mewn partneriaeth gyda'ch gilydd ers tua phedair blynedd. Yn ddiweddar, fe wnaethoch chi ddarganfod bod Priti wedi bod yn darparu gwasanaethau glanhau carpedi ychwanegol gan ddefnyddio offer y bartneriaeth y tu allan i oriau busnes arferol y bartneriaeth i un o gwsmeriaid rheolaidd y busnes, Alessia Ricci. Nid oedd Priti wedi rhoi gwybod i chi ei bod hi’n darparu'r gwasanaethau ychwanegol hyn i Alessia Ricci ac mae wedi cadw iddi ei hun yr arian y mae hi wedi'i ennill o ddarparu'r gwasanaethau hynny.

Rwy'n deall nad oes gennych gytundeb partneriaeth ysgrifenedig sy'n rheoleiddio trefniant a rheolaeth y busnes a'r berthynas rhwng y partneriaid, felly bydd materion yn hynny o beth yn cael eu penderfynu yn unol â'r gyfraith berthnasol.

Mae'r gyfraith yn cydnabod bod ar bartneriaid ddyletswydd i fod yn gwbl ddidwyll gyda’i gilydd. Mae hyn yn cynnwys datgelu gwybodaeth sy'n berthnasol i'r busnes yn llawn a pheidio â gwneud unrhyw elw anawdurdodedig o fusnes y bartneriaeth.

Dan yr amgylchiadau rydych chi wedi'u disgrifio, mae Priti wedi torri ei dyletswydd i ddatgelu gwybodaeth i chi sy'n berthnasol i'r busnes (h.y. ei bod hi’n darparu gwasanaethau glanhau yn bersonol gan ddefnyddio eiddo'r bartneriaeth) a'i dyletswydd i beidio â gwneud unrhyw elw anawdurdodedig. Dylai hi dalu'n ôl i'r

bartneriaeth yr arian y mae hi wedi'i ennill o'i defnydd hi o eiddo’r bartneriaeth (fel deunydd ac offer glanhau) a chysylltiadau busnes y bartneriaeth (trwy wneud gwaith preifat i un o gwsmeriaid rheolaidd y bartneriaeth heb eich gwybodaeth na'ch cymeradwyaeth chi).

**Pwy fyddai'n atebol am dalu am y peiriant glanhau carpedi robot os bydd Priti yn ei brynu heb eich cytundeb chi?**

Fe sonioch chi hefyd y gallai Priti brynu peiriant glanhau carpedi robot ar gyfer y busnes heb eich cytundeb chi, a’ch bod chi'n poeni y gallai'r bartneriaeth fod yn atebol am dalu am hyn os bydd hi’n gwneud hynny.

Yn absenoldeb unrhyw gytundeb i'r gwrthwyneb (er enghraifft mewn cytundeb partneriaeth ysgrifenedig), byddai mwyafrif y partneriaid yn penderfynu ar faterion busnes o ddydd i ddydd.  Yn eich achos chi, gan mai dim ond dau bartner sydd, byddai angen i'r ddau ohonoch gytuno ar benderfyniadau busnes y bartneriaeth, megis prynu offer newydd.

Fodd bynnag, wrth ddelio â thrydydd partïon fel cyflenwyr masnach, rydych chi a Priti ill dau yn asiantiaid y bartneriaeth ac i'ch gilydd at ddibenion y busnes partneriaeth. Mae hyn yn golygu y gall y bartneriaeth fod wedi’i rhwymo gan drafodiad a wnaed gan un o'r partneriaid ac felly'n atebol i'r cyflenwr mewn perthynas â'r trafodiad hwnnw.  Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd gan y cyflenwr hawl i gymryd yn ganiataol bod gan y person y mae'n delio ag ef yr awdurdod i rwymo'r bartneriaeth, ar yr amod bod y trafodiad yn ymwneud â'r math arferol o fusnes ar gyfer y bartneriaeth a'i fod o’r fath y byddai disgwyl i'r partner fel arfer gael yr awdurdod i weithredu yn ei gylch. Yn ogystal, byddai'n rhaid i'r cyflenwr wybod neu gredu bod y person y maent yn delio ag ef yn bartner ac nid yw'n ymwybodol nad oes gan y partner yr awdurdod i weithredu mewn gwirionedd.

Yn eich sefyllfa chi, pe bai Priti yn prynu'r peiriant glanhau carpedi robot yn enw'r bartneriaeth, byddai hwn yn drafodiad sy'n gysylltiedig â busnes y bartneriaeth a lle byddai disgwyl i bartner fel arfer fod â’r awdurdod i weithredu.  Pe bai'r cyflenwr yn gwybod neu'n credu bod Priti yn bartner ac nid oedd yn gwybod nad oedd gan Priti awdurdod gwirioneddol i wneud y pryniant, yna byddai'r trafodiad yn rhwymo'r bartneriaeth.  Mae hyn yn golygu y byddech chi a Priti yn gyfrifol ar y cyd am daliad i'r cyflenwr.

Gan y byddai Priti wedi gweithredu heb awdurdod gwirioneddol (hynny yw, heb eich cytundeb chi i wneud y pryniant), byddai hi dan rwymedigaeth i'ch indemnio chi'n bersonol am unrhyw golled neu atebolrwydd a allai fod gennych o ganlyniad i'r trafodiad.  Fodd bynnag, byddai hyn ond o ddefnydd os oes ganddi'r modd ariannol angenrheidiol i'ch digolledu (compensate) chi.

Rwy’n gobeithio bod yr uchod o gymorth.  Cysylltwch â ni os bydd gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech drafod unrhyw beth pellach.

Yr eiddoch yn gywir

Partner

**DADANSODDIAD**

**Pam ei bod hi'n glir bod yr ateb enghreifftiol wedi pasio'r asesiad?**

Ni fwriedir i'r canllawiau canlynol awgrymu mai dyma'r unig ffordd bosibl o ateb ond bydd yn eich helpu i ddeall pam y byddai'r ateb enghreifftiol yn cael ei ystyried fel un y mae'n glir ei fod wedi pasio yn unol â'r meini prawf asesu ar gyfer yr asesiad.

**Meini prawf yr asesiad**

Mae'r meini prawf asesu ar gyfer ysgrifennu cyfreithiol fel a ganlyn:

***Sgiliau***

1. Cynnwys ffeithiau perthnasol.
2. Defnyddio strwythur rhesymegol.
3. Bod y cyngor/cynnwys yn canolbwyntio ar y cleient a'r derbynnydd.
4. Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol sy'n briodol i'r derbynnydd.

***Cymhwyso'r gyfraith***

5. Cymhwyso'r gyfraith yn gywir at sefyllfa'r cleient.
6. Cymhwyso'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr i sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol a defnyddio crebwyll i'w datrys yn onest ac yn ddidwyll.

Roedd hi'n glir o edrych ar y meini prawf uchod bod yr ateb enghreifftiol yn gymwys am y rhesymau canlynol:

| ***MEINI PRAWF SGILIAU*** | |
|---|---|
| **Cynnwys ffeithiau perthnasol** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi ffeithiau allweddol sy'n berthnasol i'r dadansoddiad cyfreithiol, er enghraifft y ffaith nad oes cytundeb partneriaeth ysgrifenedig, nad oedd Priti wedi dweud wrth y cleient o'r blaen am y gwaith ychwanegol yr oedd hi'n ei wneud i Alessia Ricci, bod y gwaith ychwanegol hwn y tu allan i oriau busnes arferol ac yn defnyddio eiddo'r bartneriaeth ac nad yw'r cleient yn cytuno ag awgrym Priti bod y bartneriaeth yn prynu peiriant robot newydd i lanhau carpedi. |
| **Defnyddio strwythur rhesymegol** | Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r wybodaeth mewn modd rhesymegol a threfnus, er enghraifft mae cyfarchiad priodol, prif bennawd ac is-benawdau, paragraffau rhagarweiniol a therfynol, cyflwynir y materion cyfreithiol |

| | |
|---|---|
| | mewn trefn resymegol ac mae'r partner wedi dod â'r llythyr i ben yn briodol. |
| **Bod y cyngor/cynnwys yn canolbwyntio ar y cleient a'r derbynnydd** | Yn ogystal ag ymateb i holl bryderon y cleient, mae'n amlwg bod yr ymgeisydd wedi gwerthfawrogi bod y cleient yn poeni am fod yn bersonol atebol am dalu am y peiriant glanhau carpedi robot os bydd Priti yn prynu hwn heb ei ganiatâd. Mae'r ymgeisydd yn nodi bod hyn yn bosibilrwydd ond mae'n rhoi sicrwydd i'r cleient y byddai Priti yn agored i'w indemnio ef am unrhyw golled y mae e'n ei ddioddef wrth iddi hi weithredu heb ei gytundeb. |
| **Defnyddio iaith glir, fanwl, gryno a derbyniol sy'n briodol i'r derbynnydd** | Mae'r ymgeisydd wedi gosod y cyngor a'r dadansoddiad mewn ffordd glir a dealladwy i ffurfio sail ar gyfer llythyr at y cleient, gan gofio bod derbynnydd y llythyr yn berson lleyg (a lay person). Mae cysyniadau cyfreithiol fel dyletswyddau ymddiriedol ac awdurdod ymddangosiadol (apparent authority) partneriaid yn cael eu hegluro'n glir. |
| ***MEINI PRAWF CYFREITHIOL*** | |
| **Cymhwyso'r gyfraith yn gywir i sefyllfa'r cleient** | Mae'r ymgeisydd wedi nodi'r dyletswyddau perthnasol sydd ar bartneriaid i'w gilydd mewn partneriaeth draddodiadol ac mae wedi cymhwyso'r rhain i'r sefyllfa i egluro y dylai Priti fod wedi hysbysu'r cleient a chael ei ganiatâd mewn perthynas â'r gwaith ychwanegol ar gyfer Alessia Ricci ac y dylai hi roi cyfrif i'r bartneriaeth am yr elw a wnaed.<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd wedi nodi na fyddai gan Priti awdurdod gwirioneddol i brynu'r peiriant glanhau carpedi robot heb gytundeb y cleient, ond pe bai'n mynd ati i wneud hyn, mae'n debygol y byddai'r bartneriaeth yn atebol am dalu am y peiriant. |
| **Defnyddio'r gyfraith mewn modd cynhwysfawr yn sefyllfa'r cleient, gan nodi unrhyw faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad moesegol a phroffesiynol, a defnyddio crebwyll** | Mae dadansoddiad cyfreithiol yr ymgeisydd yn ddigon manwl yng nghyd-destun ffeithiau achos y cleient. Er enghraifft, mae'r ymgeisydd yn esbonio i'r cleient sail y dyletswyddau sydd ar bartneriaid i'w gilydd ac effaith hyn mewn perthynas â'r gwaith ychwanegol y mae Priti wedi'i wneud, h.y. y dylai Priti fod wedi hysbysu'r cleient am y gwaith ychwanegol hwn a rhaid iddi nawr roi cyfrif i'r bartneriaeth am yr elw a wnaed ganddi, gan y gwnaed hyn wrth ddefnyddio offer a chysylltiadau busnes y bartneriaeth.<br><br>Mae'r ymgeisydd hefyd yn esbonio ar ba sail y byddai Priti |

| | |
|---|---|
| **i’w datrys yn onest ac yn ddidwyll** | yn debygol o ymddangos i fod ag awdurdod i brynu'r peiriant glanhau carpedi robot newydd a pham y byddai'r bartneriaeth felly wedi’i rhwymo i dalu'r cyflenwr er y byddai Priti yn gweithredu heb awdurdod gwirioneddol pe bai'n gwneud y pryniant hwn heb gytundeb y cleient. Yna mae'r ymgeisydd yn egluro y byddai Priti yn agored i indemnio'r cleient am unrhyw golled a ddioddefir yn yr achos hwnnw. |